Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Min y Ddôl
# Plas Kynaston Lane
# Cefn Mawr
# LL14 3PA

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/04/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Min y Ddôl ym mhentref Cefn Mawr, Wrecsam ac mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal o amgylch. Cynhelir y lleoliad cyfrwng Cymraeg hwn mewn rhan o adeilad Ysgol Gynradd Min y Ddôl. Rheolir y lleoliad gan bwyllgor rheoli ac mae'n ddarparwr addysg fel aelod o Bartneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Wrecsam. Mae'r lleoliad mewn partneriaeth â Dechrau Deg ac mae hefyd yn aelod cofrestredig o Mudiad Meithrin.

Mae'r lleoliad ar agor drwy'r wythnos yn ystod tymor yr ysgol, ac yn darparu addysg i blant tair blwydd oed bob bore. Adeg yr arolygiad, roedd saith o blant yn hawlio darpariaeth addysg wedi eu hariannu. Mae'r plant hyn wedi mynychu'r lleoliad yn rheolaidd ers mis Ionawr 2015. Mae'r lleoliad hefyd yn darparu gofal ar gyfer plant Dechrau Deg bob bore, yn ogystal â sesiwn yn y prynhawn i blant sydd yn mynychu dosbarth meithrin yn yr ysgol yn y bore.

Adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw blentyn ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig. Nid oedd unrhyw blentyn o gefndir lleiafrif ethnig yn mynychu'r lleoliad. Mae'r plant i gyd yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg fel prif iaith yr aelwyd. Cyflogir tri aelod o staff parhaol yn y lleoliad, sy'n cynnwys arweinydd amser llawn a dau gynorthwyydd rhan amser. Adeg yr arolygiad, roedd myfyriwr hefyd yn gweithio yn y lleoliad.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Mawrth 2015.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- Llawer o blant yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad
- Rhan fwyaf y plant yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu
- Llawer yn canolbwyntio ar weithgareddau am gyfnodau da
- Ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu diddorol
- Ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda
- Perthnasau cryf rhwng plant ac oedolion
- Pwyslais amlwg ar greu amgylchedd diogel yn y lleoliad sy'n annog y plant i archwilio'r amgylchedd yn hyderus

Serch hynny:

- Er bod plant yn datblygu eu dealltwriaeth o'r Gymraeg yn briodol, nid yw llawer yn ddigon hyderus eto i ddefnyddio'r iaith ar lafar
- Nid yw llawer o blant yn gwneud digon o gynnydd wrth ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- Nid oes digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar ar draws y meysydd dysgu
- Nid yw ymarferwyr yn defnyddio deillianau asesu'n ddigon dda i gynllunio'r cam nesaf i'r plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- Gan yr arweinydd fedrau arwain priodol
- Ymarferwyr yn deall amcanion y lleoliad ac yn cydweithio'n dda i greu ethos gofalgar lle mae plant yn hapus ac yn awyddus i ddysgu
- Gan yr arweinydd a'r staff agwedd gadarnhaol a gweithredol tuag at ddatblygiad proffesiynol a hyfforddiant
- Gan y lleoliad berthynas cryf gyda'r ysgol gynradd, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin

Serch hynny:

- Mae llawer o systemau a phrosesau rheoli'n gymharol newydd ac mae'n rhy gynnar i werthuso'u heffaith ar ddarpariaeth y lleoliad a deilliannau plant

## Argymhellion

A1 Gwella medrau iaith lafar a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant

A2 Darparu digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau marcio ac ysgrifennu cynnar plant ar draws y cwricwlwm

A3 Asesu datblygiad medrau plant yn rheolaidd ac yn ofalus er mwyn cynllunio’r cam nesaf yn eu dysgu

A4 Gweithredu systemau a phrosesau newydd yn effeithiol i wella darpariaeth a chodi deilliannau plant

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae llawer o blant yn gwneud cynnydd priodol ar draws meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen yn unol â'u gallu a'u cyfnod datblygu.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau iaith sydd yn gyffredinol berthnasol i'w hoed a'u cefndir ieithyddol. Mae bron pob un yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn gywir i gyfarchion a chyfarwyddiadau'r ymarferwyr. Maent yn mwynhau gwrando ar storïau ac yn ymuno mewn ystod eang o ganeuon a rhigymau'n frwdfrydig. Mae'r mwyafrif yn deall brawddegau a chwestiynau cyfarwydd o fewn gweithgareddau ffocws ac amser carped. Fodd bynnag, nid ydynt eto yn ddigon hyderus yn y Gymraeg i'w defnyddio gyda'i ffrindiau wrth chwarae.

Mae ychydig o blant yn adnabod eu henwau ar fatiau bwrdd yn ystod amser byrbryd ac yn mwynhau edrych ar lyfrau yn annibynnol yn y gornel ddarllen. Mae'r mwyafrif yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn raddol gan wneud patrymau yn y tywod a chreu siapau gyda thoes. Er hyn, nid ydynt yn cynyddu eu dealltwriaeth o bwrpasau ysgrifennu'n ddigon da ar draws y meysydd dysgu eraill.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau rhifedd cadarn. Mae'r rhan fwyaf yn cyfrif i bump yn hyderus ac yn dosbarthu gwrthrychau o wahanol fathau yn ôl lliw neu faint yn gywir. Mae llawer yn cymhwyso'r medrau hyn yn effeithiol wrth chwarae a chyflawni gweithgareddau penodol. Er enghraifft, maent yn cyfrif cwpanau a phlatiau wrth osod y bwrdd ar gyfer amser byrbryd. Nid yw plant yn gwneud digon o gynnydd wrth ddatblygu eu medrau TGCh.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o'r plant yn gryf. Maent yn defnyddio offer bach fel brwsys paent a siswrn yn llwyddiannus ac maent yn awyddus i roi cynnig ar weithgareddau heriol fel medrau cydbwyso yn yr ardal allanol. Mae rhan fwyaf y plant yn dewis gweithgareddau'n hyderus ac yn dyfalbarhau yn dda gyda thasgau. Er enghraifft, mae ychydig iawn o blant mwy abl yn canolbwyntio'n ddwys wrth ddefnyddio gwialen i ddal pysgod magnetig gan geisio esbonio'r hyn sy'n digwydd yn llwyddiannus.

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn ymgartrefu'n dda ac yn ymgyfarwyddo'n gyflym â gweithdrefnau'r lleoliad. Maent yn symud yn ddiwyd a hyderus rhwng gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf yn dyfalbarhau am gyfnodau da wrth gwblhau tasgau.

Mae bob plentyn yn ymddwyn yn gyson dda. Maent yn dangos eu bod yn teimlo'n ddiogel yng nghwmni'r ymarferwyr ac maent yn hyderus i ofyn am gymorth. Mae'r rhan fwyaf yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Maent yn hyderus wrth wneud dewisiadau a thrwy hynny, maent yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae gan y rhan fwyaf o blant ymwybyddiaeth briodol o bwysigrwydd bwyta'n iach. Maent yn bwyta ystod eang o ffrwyth a byrbrydau addas yn ystod y bore. Maent yn symud i ganeuon actol yn frwdfrydig, defnyddio offer dringo'n hyderus a thaflu peli yn fedrus. Mae bron bob un o'r plant yn dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu hylendid personol gan olchi eu dwylo cyn bwyta a glanhau eu dannedd yn rheolaidd.

Mae bron bob un o'r plant yn tacluso ar ôl gweithgareddau ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau yn eu tro, fel helpwr y dydd. Maent yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol, gan gydweithio'n fwriadol a dangos ystyriaeth am deimladau ei gilydd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn cynllunio gweithgareddau amrywiol sydd yn gweddu'n dda i anghenion a diddordebau'r plant. Mae'r ymarferwyr wedi datblygu cynllun bras i ddarparu profiadau diddorol ar draws meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Mae ychydig o gyfleoedd addas i'r plant gyfrannu at y cynllunio, yn enwedig i ddylanwadu ar ddewis themâu dysgu.

Mae darpariaeth briodol i hybu medrau llythrennedd a rhifedd y plant drwy brofiadau dyddiol y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddatblygu eu hiaith lafar drwy ganu caneuon a chwarae gemau. Defnyddir labeli a llyfrau o gwmpas y lleoliad yn effeithiol i feithrin dealltwriaeth y plant o symbolau a lluniau sy'n cyfleu ystyr. Mae cyfleoedd da i'r plant ddatblygu eu medrau rhifedd drwy dasgau sydd yn cael eu harwain gan oedolion a thrwy weithgareddau annibynnol. Mae ychydig o gyfleoedd pwrpasol i'r plant ddefnyddio eu medrau TGCh i gofnodi eu gwaith trwy ddefnyddio camera digidol ac i ymarfer eu hiaith lafar gyda'r recordydd llais electronig. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i'r plant ymestyn eu medru marcio a'u medrau TGCh ar draws y cwricwlwm.

Mae'r lleoliad yn defnyddio ymweliadau ac ymwelwyr yn llwyddiannus i wella profiadau dysgu plant. Maent yn mynd i'r llyfrgell a'r parc yn rheolaidd yn ogystal ag ymweld ag archfarchnad leol i ddysgu am daith eu bwyd o'r fferm i'r siop. Mae'r lleoliad yn croesawu ystod o ymwelwyr diddorol, gan gynnwys yr heddlu, y nyrs a'r deintydd. Gwneir defnydd priodol o'r ardal allanol i ddarparu cyfleoedd i blant ddysgu am sut mae pethau yn tyfu a sut i ofalu am blanhigion a'r amgylchedd. Mae cyfleoedd priodol i gyflwyno traddodiadau a dathliadau Cymru i'r plant, fel Dydd Gŵyl Dewi.

**Addysgu: Digonol**

Mae ansawdd y dulliau addysgu'n gyffredinol effeithiol. Mae perthynas cadarnhaol yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant ac mae hwn yn creu awyrgylch gefnogol sydd yn annog y plant i roi cynnig ar weithgareddau newydd. Mae ymarferwyr yn arwain y dysgu a rheoli grwpiau yn dda ac maent yn llwyddo i sicrhau bod plant yn dyfalbarhau ar dasg am gyfnodau estynedig. Mae hyn yn gryfder yng ngwaith y lleoliad.

Mae'r staff yn gwneud defnydd pwrpasol o'r adnoddau da, yn arbennig yn yr ardaloedd chwarae rôl a'r ardal allanol. Mae hyn yn ysgogi'r plant i ddatblygu eu medrau iaith a rhifedd yn ogystal â'u gallu i wneud penderfyniadau. Gwneir defnydd cymwys o'r Gymraeg gan yr ymarferwyr. Maent yn modelu iaith raenus ac mae hyn yn datblygu medrau gwrando a dealltwriaeth y plant yn dda.

Mae gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd y plant yn gymharol newydd. Mae'r lleoliad wedi mabwysiadu awgrymiadau'r awdurdod lleol yn briodol. Mae'r ymarferwyr yn asesu pob plentyn ar fynediad ac ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn holi cwestiynau addas ac yn cynnig adborth llafar i'r plant wrth iddynt wneud eu gweithgareddau, ac ambell waith maent yn gwneud arsylwadau anffurfiol. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr eto'n defnyddio'r dystiolaeth i ddylanwadu ar gynllunio i sicrhau her briodol i bob plentyn. O ganlyniad, nid yw'r gweithdrefnau newydd wedi cael effaith gadarnhaol eto ar safonau.

Mae staff ar gael cyn ac ar ôl y sesiynau i siarad â rhieni neu ofalwyr am gynnydd eu plant. Maent yn derbyngwybodaeth briodol am gyflawniadau eu plant o ddydd i ddydd, ond mae'r arfer hon yn anffurfiol ac yn rhy anghyson.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r trefniadau i gefnogi iechyd a lles y plant yn dda ac mae'r lleoliad yn gymuned hapus a gofalgar. Mae cyfleoedd addas i godi ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd bwyta'n iach, ac mae digon o gyfleoedd buddiol iddynt fod yn weithgar yn gorfforol. Mae'r lleoliad yn gweithredu cynllun sydd yn hybu arferion da o ran glendid.

Mae ansawdd y gweithgareddau, modelu da'r ymarferwyr a'r sylw cyson a roddir i roi adborth positif i blant yn hyrwyddo eu hyder a'u datblygiad personol, moesol a chymdeithasol yn dda. Mae gwerthoedd, fel tegwch, dealltwriaeth ymddygiad derbyniol ac annerbyniol, a gofalu am eraill, yn cael eu hyrwyddo'n achlysurol drwy'r gweithgareddau dyddiol. Mae'r cyfleoedd i weddïo a chymryd rhan mewn dathliadau fel y cynhaeaf, y Nadolig a Sul y Mamau, yn cyfrannu'n addas at ddatblygiad ysbrydol a moesol y plant. Mae cyflenwad priodol o adnoddau yn y lleoliad i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r byd ehangach a diwylliannau eraill. Fodd bynnag, nid yw'r agwedd hon bob amser yn cael lle digon bwriadus yng ngweithgareddau a chynlluniau'r lleoliad.

Adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw blentyn ar y gofrestr ag anghenion addysgol arbennig. Fodd bynnag, mae systemau addas ar waith i adnabod anghenion dysgu ychwanegol plant. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn deall pwysigrwydd adnabod anghenion y plant yn gynnar ac yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r awdurdod lleol ynglŷn â chydweithio gydag asiantaethau allanol arbenigol. Mae'r lleoliad yn trosglwyddo gwybodaeth am y plant i ddosbarth meithrin yr ysgol yn effeithiol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn creu awyrgylch groesawgar a chartrefol i sicrhau bod pob plentyn yn cael ei barchu fel unigolyn. Mae'n gymuned gynhwysol, lle caiff pob plentyn fynediad cyfartal i'r holl brofiadau dysgu. Mae'r ymarferwyr yn ystyried eu natur a'u

cefndiroedd amrywiol yn ofalus ac yn gweithredu'n briodol yn unol â'r wybodaeth hon. Mae ethos positif y lleoliad yn galluogi'r rhan fwyaf o'r plant i ymgartrefu'n gyflym.

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau priodol i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da sydd o fewn cyrraedd y plant. Maent wedi eu trefnu a'u labelu'n ofalus er mwyn hyrwyddo dysgu annibynnol y plant pan fyddant wrth eu gweithgareddau a phan fyddant yn tacluso. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r gofod trwy drefnu ardaloedd dysgu deniadol. Mae'r arddangosfeydd o waith y plant yn dathlu eu llwyddianau ac yn cefnogi'r dysgu ymhellach. Mae'r ystafell yn lân a diogel.

Mae'r ardal tu allan wedi ei threfnu'n ddiweddar yn ardaloedd dysgu diddorol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr wedi creu gardd fach lle mae'r plant yn plannu planhigion er mwyn arsylwi arnynt yn tyfu a dysgu sut i ofalu amdanynt.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r arweinydd yn datblygu ei medrau rheoli yn briodol gan weithio'n agos gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol i osod cyfeiriad strategol i'r lleoliad. Mae pob ymarferwr yn deall amcanion y lleoliad ac yn cefnogi'r ffocws clir ar ddarparu ethos gofalgar lle mae plant yn hapus ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn rhannu gwerthoedd a disgwyliadau cytûn yn llwyddiannus ac yn gweithio'n galed i sicrhau cysondeb yn eu gwaith a'u disgwyliadau. Maent yn cydweithio'n bwrpasol i wella darpariaeth a sicrhau profiadau cadarnhaol i'r plant.

Mae rolau a chyfrifoldebau'r ymarferwyr yn glir. Mae pob un ohonynt yn cyfrannu'n rheolaidd at gynllunio ac maent yn cyflawni eu dyletswyddau'n gydwybodol o ddydd i ddydd. Mae gan y lleoliad brosesau boddhaol i reoli perfformiad y staff. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn datblygu eu medrau proffesiynol yn briodol.

Mae perthynas gryf rhwng y lleoliad a'r person cofrestredig. Mae hi'n deall cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w gwella'n fanwl ac yn sicrhau bod y pwyllgor rheoli yn derbyn gwybodaeth gywir am gynnydd y lleoliad. Mae'r pwyllgor yn drefnus yn ei waith ac yn gefnogol i'r arweinwr a'r ymarferwyr.

Mae'r lleoliad yn rhoi sylw dyledus i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol Er enghraifft, mae ffocws addas ar ddatblygu agweddau o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, ac ar bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach.

Er bod yr arweinydd a'r staff wedi cyflwyno llawer o weithdrefnau defnyddiol yn ddiweddar, maent yn newydd iawn, ac nid ydynt eto wedi cael effaith ddigon arwyddocaol ar ddeilliannau'r plant.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gweithdrefnau hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn addas, ond yn gymharol newydd.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr eraill, gyda chefnogaeth yr awdurddod lleol, wedi cryfhau eu dealltwriaeth o bwrpas hunan arfarnu a gwella ansawdd. Erbyn hyn, mae gan yr arweinydd wybodaeth gywir am ychydig o brif gryfderau a diffygion y lleoliad ac mae'r ymarferwyr eraill yn dechrau cyfrannu'n briodol i'r broses. Mae'r adroddiad hunan arfarnu cyfredol yn cyfeirio'n benodol at safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth. Mae'n adnabod beth mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda ac yn nodi rhai meysydd pwysig i'w gwella.

Ar y cyfan, mae cyswllt cadarn rhwng deilliannau'r broses hunan arfarnu a thargedau'r cynllun datblygu. Mae'r cynllun datblygu'n canolbwyntio'n dda ar wella darpariaeth er mwyn codi safonau. Mae ymarferwyr yn ymateb yn gadarnhaol i gefnogaeth yr athrawes gyswllt, pennaeth ac athrawon yr ysgol gynradd a Mudiad Meithrin. Maent yn awyddus i arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio a awgrymir iddynt.

Nid yw'r lleoliad eto wedi cwblhau ei gylch gyntaf o hunan arfarnu. Oherwydd hyn, mae'r prosesau yn newydd ac yn gymharol anffurfiol. O ganlyniad, mae'n rhy gynnar i fesur eu heffaith ar ddarpariaeth ac ar godi safonau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r cydweithio diweddar gydag ystod ehangach o bartneriaethau yn dwyn ffrwyth ac yn cyfrannu'n bositif at les a safonau'r plant.

Mae'r berthynas waith adeiladol gyda'r person cofrestredig, y pwyllgor rheoli, yr athrawon cyswllt a swyddogion Mudiad Meithrin yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad pellach y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr ar gael i gyfarfod yn anffurfiol gyda rhieni a gofalwyr ar ddechrau a diwedd pob sesiwn, ac maent yn gwerthfawrogi'r cyswllt hwn.

Mae'r bartneriaeth â'r ysgol gynradd yn datblygu'n dda iawn er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r plant i gam nesaf eu haddysg. Mae'r oedolion yn cydweithio'n agos i drafod ac i rannu adnoddau ac arbenigedd. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau'r plant â'r ysgol a chyfleoedd iddynt fynychu cyngherddau a dathliadau a drefnir gan yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r arweinydd yn rheoli staff ac adnoddau yn gymwys. Mae hi'n sicrhau bod digon o ymarferwyr â chymwysterau addas yn y lleoliad pob dydd ac mae'n defnyddio eu cryfderau'n dda er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol. Gwneir defnydd buddiol o'r ystod eang o adnoddau ansawdd da. Mae hyn yn cyfrannu at sicrhau ymrwymiad, lles a hyder y plant.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn adnabod anghenion yr ymarferwyr yn briodol. O ganlyniad, maent yn derbyn hyfforddiant perthnasol sydd yn seiliedig yn ddiweddar ar eu targedau datblygu personol ac ar flaenoriaethau'r lleoliad. Fodd bynnag, oherwydd bod y trefniadau yn gymharol newydd, nid yw arweinwyr wedi gwerthuso'u heffaith ar ddarpariaeth na deilliannau'r plant.

Mae’r pwyllgor yn rheoli ac yn dyrannu cyllid y lleoliad yn ofalus i sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o staff priodol ac adnoddau defnyddiol.  O ystyried deilliannau’r plant yn ogystal ag ansawdd y gofal a’r addysgu, mae'r lleoliad yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mrs Sarah Jane Morgan, HMI | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |